

Cyngor Sir Fynwy

## Deddf Rheoli Llifogydd a dŵr 2010

### Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19

# Cil-y-coed

Chwefror 2020

# Cynnwys

---

Rheoli Fersiwn .....	2
1. Crynodeb Gweithredol.....	3
2. Cyflwyniad .....	4
2.1    Diben yr Ymchwiliad .....	4
2.2    Lleoliad y Safle .....	5
2.3    Tystiolaeth Ymchwiliad .....	9
3. Hanes Llifogydd.....	10
3.1 Digwyddiadau Llifogydd Blaenorol.....	10
3.2 Digwyddiad Llifogydd .....	12
3.3 Dadansoddiad Glawiad.....	21
4 Dulliau Llifogydd.....	24
4.1 Llifogydd Afonol .....	24
4.2    Draeniad Tir.....	26
4.3    Draeniad Dŵr Wyneb.....	27
5 Hawliau a Chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg .....	28
5.1 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.....	28
5.2 Cyfoeth Naturiol Cymru .....	29
5.3 Cwmni Dŵr/Carthffosiaeth .....	29
5.4 Network Rail .....	29
5.5 Awdurdodau Priffyrrd .....	30
5.6 Perchnogion Glannau Afonydd .....	30
5.7 Preswylwyr a Pherchnogion Eiddo .....	30
6 Pwerau Caniataol Awdurdodau Rheoli Risg .....	31
7 Cynllun Lliniaru Llifogydd/Gwelliannau Draeniad.....	31
8 Casgliad.....	32
9 Argymhellion .....	33
10 Dolenni Defnyddiol a Chysylltiadau .....	34
Atodiad A – Adroddiad Swyddfa'r Met Storm Jorge.....	
Atodiad B – Ffotograffau Draeniad Tir a Dŵr Wyneb .....	
Atodiad C – Monitro Hydrolegol BGS SSSI Gwlypdir Nant Nedern Cyfnod 1 .....	

## Rheoli Fersiwn

<b>Teitl</b>	Cil-y-coed Chwefror 2020
<b>Diben</b>	Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19
<b>Perchen nog</b>	Priffyrrd a Rheoli Risg Llifogydd
<b>Cymeradwywyd gan</b>	M.Hand (Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrrd a Llifogydd)
<b>Dyddiad</b>	Mawrth 2021
<b>Rhif Fersiwn</b>	Terfynol
<b>Statws</b>	Materion
<b>Cyfnod Adolygu</b>	D/B
<b>Dyddiad adolygiad nesaf</b>	D/B
<b>Ymgynghoriad</b>	D/B

Fersiwn	Paratowyd gan	Adolygwyd gan	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Terfynol	D J Harris (Peiriannydd Annibynnol)	R. Price (Peiriannydd Prosiect)	M.Hand (Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrrd a Llifogydd)	Mawrth 2021

## 1. Crynodeb Gweithredol

Yn unol ag Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae'n ddyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i ymchwilio llifogydd o fewn ei ardal, i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenreidiol neu briodol. Paratowyd yr adroddiad hwn yn benodol ar gyfer diben cyflawni gofynion Adran 19 ac mae'n rhoi adroddiad ffeithiol o'r digwyddiad llifogydd ar 29 Chwefror i 1 Mawrth 2020 yng Nghil-y-coed, Sir Fynwy.

Ar 15 a 16 Chwefror 2020, syrthiodd cyfnod o law trwm yn ystod Storm Dennis, gan achosi llifogydd eang ar draws y Sir. Parhaodd yn gyfnod gwlyb gan bennaf rhwng 16 a 28 Chwefror, pan syrthiodd cyfnod pellach o law trwm ar 28 – 29 Chwefror yn ystod Storm Jorge ar dir oedd eisoes yn ddirlawn gan arwain at lifogydd sylweddol yn nhref Cil-y-coed. Yn seiliedig ar ddata medryddion glaw, dechreuodd y glawiad tua 6.00am ddydd Gwener 28 Chwefror hyd at tua 6.00am ddydd Sadwrn 29 Chwefror, gyda hyd at 62mm o lawiad. O adroddiadau lleol, dechreuodd llifogydd yn ac o amgylch ardaloedd Castell Cil-y-coed, Castle Lea, Jolyons Court, Castle Lodge Crescent a Stad Ddiwydiannol Pont Hafren yn gynnar ar fore dydd Sadwrn 29 Chwefror a pharhaodd i waethyg tan yn hwyr gyda'r nos ar ddydd Sul 1 Mawrth, cyn glirio gan fwyaf erbyn dechrau bore dydd Llun 2 Mawrth.

Sefydlwyd mai prif ddull y llifogydd oedd o Nant Nedern a systemau draeniad dŵr wyneb leol a orlenwodd gan nad oeddent yn medru arllwys i'r cwrs dŵr pan oedd mewn llif. Dynododd yr ymchwiliad y cafodd y sgrin frigau mawr yn yr fewnfa i gwlfert yr M4 yn is na Stad Ddiwydiannol Pont Hafren ei blocio ac na fedrodd Highways England, perchennog yr ased, ei chlirio ar unwaith oherwydd lefel y malurion â'r pwysau dilynol ar y sgrin. Hyn, ynghyd â chyfyngiadau posibl ar lif ar hyd sianel Nant Nedern, oedd prif achosion cronni systemau dŵr wyneb cysylltiol. Digwyddodd llifogydd eang yn ac o amgylch tiroedd Castell Cil-y-coed a Stad Ddiwydiannol Pont Hafren gan effeithio ar nifer fawr o adeiladau a busnesau. Yn ychwanegol, cronnodd carthffos dŵr wyneb Dŵr Cymru a gorlifo drwy orchudd siambr o fewn Castle Lea gan arwain at lifogydd i rwydweithiau ffyrdd yn ogystal â nifer o anheddu a gerddi.

Yn dilyn y digwyddiad llifogydd ymwelodd Swyddogion o Dîm Prifyrdd a Rheoli Risg Llifogydd Cyngor Sir Fynwy â'r lleoliadau yr effeithiodd y llifogydd arnynt a chasglu gwybodaeth ar y digwyddiad gan nifer o breswylwyr a pherchnogion busnes i gael dealltwriaeth o natur y llifogydd. Yn ychwanegol ac oherwydd cyfyngiadau teithio ar y pryd, ysgrifennwyd at yr holl anheddu a busnesau yr effeithiwyd arnynt o fewn a ger cwmpas y llifogydd yn gofyn am wybodaeth ar y digwyddiad. Casglwyd manylion pellach gan gynghorwyr/aelodau etholedig lleol, adroddiadau hanesyddol o ddigwyddiadau llifogydd blaenorol yn yr un lleoliad yn ogystal â gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Highways England sydd, yn ychwanegol â Chyngor Sir Fynwy, yr Awdurdodau Rheoli Risg cysylltiedig. Casglwyd gwybodaeth gefnogi ychwanegol am y patrymau tywydd a'r glawiad adeg y digwyddiad gan Swyddfa'r Met.

## 2. Cyflwyniad

---

### 2.1 Diben yr Ymchwiliad

Ar 28 a 29 Chwefror 2020 effeithiodd digwyddiad tywydd sylweddol ar Sir Fynwy a arweiniodd at lawiad trwm a maith ar draws y sir a dalgylchoedd uchaf llawer o gyrsiau dŵr cyffredin a phrif afonydd, megis Afonydd Wysg, Mynwy a Gwy, yn cynnwys Nant Nedern yng Nghil-y-coed.

Arweiniodd y digwyddiad glawiad trwm at lifogydd sylweddol mewn llawer o ardaloedd ar draws Sir Fynwy, yn arbennig ran deheuol y sir, lle effeithiwyd yn wael ar dref Cil-y-coed. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwytio ar y llifogydd yng Nghil-y-coed.


Y rheswm am ymchwiliad Cyngor Sir Fynwy yw mewn ymateb i ddyletswyddau'r awdurdod lleol yng nghyswllt Adran 19 Deddf Rheoli Dŵr a Llifogydd 2010 sy'n dweud:

- (1) Ar ddod i wybod am llifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, i'r graddau y mae'n ystyried yn angenrheidiol neu briodol, ymchwilio:
  - (a) Pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, a
  - (b) P'un ai yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi gweithredu, neu'n cynnig gweithredu, y swyddogaethau hynny yng nghyswllt y llifogydd.
- (2) Lle mae awdurdod yn cynnal ymchwiliad dan is-adran (1) mae'n rhaid iddo:
  - (a) Gyhoeddi canlyniadau ei ymchwiliad, a
  - (b) Hysbysu unrhyw awdurdodau rheoli risg perthnasol.


## 2.2 Lleoliad y Safle

Mae tref Cil-y-coed i dde-ddwyrain Sir Fynwy ac mae'n ffinio ar Fôr Hafren yn y de, gyda Chas-gwent tua 5 milltir i'r dwyrain. Mae'r dref yn cynnwys poblogaeth breswyl fawr gyda chanolfan siopa boblogaidd ac ardal fasnachol i'r de ddwyrain. Mae Cil-y-coed mewn lleoliad da gyda'r B4245 yn rhedeg drwy'r dref o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae'n agos at yr A48, yr M48 a'r M4 ac mae ganddi orsaф ar reilffordd Casnewydd – Cas-gwent. Mae gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren tua 2 filltir i'r gorllewin yn rhoi mynediad ar reilffordd i Gaerdydd, Bryste a Llundain. Y boblogaeth yng Nghymru 2011 oedd 11,200 ac amcangyfrifwyd fod y boblogaeth yn 2018 yn 11,636.

Mae Nant Nedern yn draenio i'r de i Fôr Hafren gyda'i dalgylch i'r gogledd Cil-y-coed, llawer ohono drwy'r tir uchel a elwir yn Goed Gwent. Wrth iddi lifo i'r de, aiff drwy ochr ddwyreiniol Cil-y-coed gyda phentref Porthysgewin ychydig i'r dwyrain. Mae prif ran y dref ei hunan ar ochr orllewinol Nant Nedern, a gaiff ei dosbarthu fel prif afon. Mae'r nant yn parhau i'r de i fôr Hafren lle mae Nant Nedern yn arllwys drwy gwlfert dan draffordd yr M4. Mae sgrin sbwriel ar ben uchaf y cwlfert y medrir ei godi i glirio malurion a drws môr ar ochr isaf y cwlfert (sydd yn ymarferol yn fflap llanw mawr) sy'n diogelu'r nant rhag mewnllif llanw.




Ffurig 1: Cynllun lleoliad (dangosir dalgylch Nant Nedern mewn glas)



Ffigur 2: Cynllun Lleoliad Cil-y-coed (dangosir dalgylch Nant Nedern mewn glas)

Mae gan Nant Nedern lan o Gil-y-coed ddalgylch o tua 46km<sup>2</sup> ac mae'n bennaf yn wledig ei natur. Mae'r prif lifoedd yn tarddu yn ardal Coed Gwent i'r gogledd a'r gogledd orllewin o Gil-y-coed, lle mae tarddiad Nant Castrogi, a elwir yn Nant Caerwent lle mae'n mynd o amgylch Caerwent ac yna gydag is-nant arall o'r oglesedd orllewin yn dod yn Nant Nedern, gan gasglu is-nentydd bach eraill ar y ffordd. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) i oglesedd ddwyrain Cil-y-coed a elwir yn SSSI Caerwent. Mae traphont yn cario traffordd yr M48 dros Nant Nedern bron yng nghanol yr SSSI.

Mae'r SSSI yma yn ardal o ddolydd dŵr a chaiff lefelau dŵr yma eu rheoli i gynnal ecoleg y safle. Mae nifer o llyncoyllau yn y galchfaen oddi tano, a elwir yn lleol yn 'drobyllau' lle yn llifoedd diwedd yr haf gall llif y nant ollwng i lawr i'r agennau a gall gysylltu gyda llif y ffynnon fawr a gaiff ei phwmpio allan yn Sudbrook i gadw Twnnel Rheilffordd yr Hafren yn sych. Mewn llifogydd gall yr SSSI weithredu fel cronfa fechan, fod bynnag oherwydd y cyfnod gwlyb iawn yn yr wythnosau cyn y digwyddiad llifogydd, ychydig iawn o storio fyddai wedi bod ar gael. Gall y llyncoyllau hefyd ryddhau llif ar ôl glawiad sylweddol gan ychwanegu at llif dŵr daear sy'n ffurio llawer o lifoedd arferol Nant Nedern.



Ffigur 3: SSSI Caerwent (llinellau g wyrdd)


Dynodwyd dau lyncdwll, y ddu ar hyd ymyl gogleddol yr SSSI. yr OSGR ar eu cyfer yw 348163/189925 a 347354/189943. Dangosir ffotograff o un islaw, diolch i Arolwg Ddaearegol Brydeinig. Mae adroddiad eu hastudiaeth o aef 2014/15 ar gael yn Atodiad D. Mae dau ran o'r adroddiad o ddiddordeb yma:

*"Cafodd Nant Nedern ei haddasu'n helaeth yn y gorffennol. Cafodd ei sythu a'i gor-ddyfnhau ac mae'n bennaf yn gweithredu fel draen ar gyfer dŵr daear sy'n arllwys i'w gorlifdiroedd."*

*"Mae llifogydd yn Nant Nedern yn dechrau gyda rhyddhau dŵr daear i'r gorlifdiroedd yn hytrach na llifogydd afonol dros y glannau o Nant Nedern. Mae Nant Nedern wedi ei gorddyfnhau ac mae'n gweithredu'n bennaf fel draen, yn cyfeirio dŵr ymaith o'r gorlifdir. Yn ystod yr astudiaeth, nid oedd unrhyw dystiolaeth mai llifogydd afonol o'r Afon Nedern yn torri ei glannau oedd achos dechreuol y llifogydd". Mae'r llifogydd yma'n cyfeirio at ardal gwlypdir yr SSSI i'r gogledd a lan o Castell Cil-y-coed.*



Dynodwyd Nant Nedern yn brif afon a ddaw o fewn Ardal Draeniad Mewnol Cil-y-coed a Gwynllwg a gaiff ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ffin yr Ardal yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal yr effeithiwyd arni yn ystod y digwyddiad llifogydd yma fel y dangosir yn Ffigur 4 islaw. Caiff yr adran dan Draffordd yr M4 ei rheoli gan Highways England gan ei bod yn cydffinio ag Ail Groesfan Hafren, a elwir erbyn hyn yn Bont Tywysog Cymru.




Ffigur 4: Cynllun Lleoliad (dangosir Ardal Draeniad Mewnol Cil-y-coed a Gwynllwg mewn glas)



Ffigur 5: Llun o'r awyr o'r ardaloedd yr effeithiodd y digwyddiad arnynt

Mae mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod rhan ddwyreiniol Cil-y-coed mewn risg mawr o llifogydd o Nant Nedern a risg canolig-uchel o llifogydd dŵr wyneb fel y dangosir yn Ffigurau 5 a 6 islaw.



Ffigur 6: Darn o Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru  
 yn dangos risg llifogydd o afonydd a'r môr



Ffigur 7 – Rhan o Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos  
risg llifogydd o ddŵr wyneb

## 2.3 Tystiolaeth Ymchwiliad

Casglwyd amrywiaeth o dystiolaeth ansodol a meintiol o nifer o ffynonellau i gefnogi'r ymchwiliad, a rhoddir crynodeb islaw:

- Preswylwyr, Perchnogion Busnes a Chyngorwyr Ileol/Aelodau Etholedig – ffotograffau, datganiadau, gohebiaeth ysgrifenedig
- Arolygon – arolygon draeniad ac archwiliadau safle
- Data Swyddfa'r Met – medryddion glaw ac adroddiadau astudiaethau blaenorol
- Cyfoeth Naturiol Cymru – medryddion glaw ac adroddiadau astudiaethau blaenorol
- Dŵr Cymru – camau gweithredu
- Highways England – cofnodion, camau gweithredu a phresenoldeb
- Cyngor Sir Fynwy – medryddion glaw yn Devauden a Penhow, cronfa ddata asedau a Chynllun Rheoli Risg Llifogydd
- Adroddiadau hanesyddol yn ymwneud â llifogydd yng Nghil-y-coed, fel y dangosir yn Adran 3.1 islaw.

## 3. Hanes Llifogydd

---

### 3.1 Digwyddiadau Llifogydd Blaenorol

Mae nifer o ddigwyddiadau llifogydd blaenorol sy'n berthnasol i'r digwyddiad y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad.

#### 1. Gwahanol Ddigwyddiadau a Gofnodwyd

O'r cofnodion ceisiadau am fagiau tywod a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy, roedd digwyddiadau llifogydd ym mis Awst 2006, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2007 a mis Awst a mis Medi 2008. Mae'r rhain yn cyd-fynd gyda'r sylwadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn eu hadroddiad i Bwyllgor Ardal Glannau Hafren Sir Fynwy ar 13 Mai 2011 y cyfeirir ato islaw.

#### 2. Cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 13 Mai 2011

Roedd cynghorwyr sir lleol yn ardal Cil-y-coed wedi bod yn bryderus am broblemau llygredd yn Nant Nedern yn llifoedd isel yr haf a nifer o ddigwyddiadau llifogydd yn effeithio ar stad Castle Lea. Yn dilyn llifogydd mwy diweddar roedd Dŵr Cymru wedi cynnig rhai gweithiau newydd i wella draeniad dŵr wyneb yn yr ardal. Roedd llawer o'r system dŵr wyneb ar stad Castle Lea yn breifat ac yn annigonol i gludo llif o uwchben y stad i Nant Nedern. Byddai'r system newydd hon yn osgoi'r systemau preifat yn gwasanaethu'r stad.

Rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (bellach Cyfoeth Naturiol Cymru) adroddiad i Bwyllgor Ardal Glannau Hafren Cyngor Sir Fynwy ar 13 Mai 2011 a dynodi y bu llifogydd helaeth yn y gorffennol yn effeithio ar ben dwyreiniol Castle Lea a Jolyons Court. Ymddangosai fod hyn yn deillio o'r gyliau ffordd oedd yn eu tro yn cysylltu gyda system ddraeniad Dŵr Cymru sydd wedyn yn arllwys i Nant Nedern. Bwriedid i'r gwaith arfaethedig gan Dŵr Cymru unioni'r mater hwn. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at gyfarfod safle a gawsant gyda phreswylwyr ym mis Awst 2010. Cadarnhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn eu hadroddiad hefyd eu bod wedi cynnal cliriad blynnyddol ar Nant Nedern ac wedi cytuno'n ddiweddar i ychwanegu £160m arall am gynnal a chadw at eu rhaglen flynyddol.


#### 3. Digwyddiad ar 22 Gorffennaf 2011

Bu digwyddiad llifogydd sylweddol ar 22 Gorffennaf 2011 pan effeithiwyd ar tua 30 o anheddu ar stad Castle Lea, Heol Cas-gwent a Castle Lodge Crescent. Digwyddodd hyn ar ôl y gwaith mawr a wnaed gan Dŵr Cymru i lacio'r sefyllfa llifogydd. Ar ôl hynny cynhaliwyd cyfarfod ar 18 Awst 2011 rhwng cynghorwyr sir, Dŵr Cymru a swyddogion y Cyngor. Esboniodd Dŵr Cymru fod nifer o ffactorau wedi achosi'r llifogydd, sef:

- a) bod rhannau o system Dŵr Cymru wedi ei blocio'n rhannol gan saim a malurion sydd wedi eu clirio ers hynny,
- b) bod rhannau o system ddraeniad Castle Lea yn breifat ac mai rhan o'r gwaith mawr fu osgoi'r system hon a mynd â llifoedd yn uniongyrchol i Nant Nedern,

c) roedd preswylwyr yr effeithiodd y llifogydd arnynt wedi galw'r Frigâd Dân oedd wedi mynd ati i bwmpio'r dŵr i ffwrdd drwy arllwys y dŵr i'r system ddraeniad ond mewn camgymeriad wedi cysylltu gyda'r system draeniad aflan. Roedd hyn wedi achosi gorlwytho yn yr orsaф bwmpio carthffosiaeth, gan arwain at gronni a gorlenwi'r system gan achosi i garthffosiaeth aflan gymysgu gyda'r dŵr llifogydd a gwaethygu'r sefyllfa.

Ar ôl hynny dynododd Dŵr Cymru dwll gwaith neilltuol y byddai'n ddiogel i'r frigâd dân ei ddefnyddio mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol a chytuno hefyd i lanhau'r system leol yn flynyddol i leihau unrhyw gronni pellach.



Ffigur 6: Cynllun dŵr wyneb yn dangos lleoliad twll gwaith ar gyfer pwmpio

#### 4. Digwyddiad ym mis Rhagfyr 2012

Roedd digwyddiad sylweddol arall ym mis Rhagfyr 2012 yn effeithio ar rannau o Castle Lea a'r rhan fwyaf o'r Parc Gwledig o amgylch y Castell – gweler Ffotograff 1 islaw. Deellir bod y llifogydd yn Castle Lea i'r gerddi ac adeiladau allanol ac nid yn fewnol. Yn lleol dywedwyd fod yr achos yn gysylltiedig â drws y môr – sef bod gollyngfa Nant Nedern i Fôr Hafren naill ai ddim yn agor yn iawn neu wedi tagu gan greu croniad sylweddol o lifogydd dŵr mewn ardaloedd uwchben, ond ni cafodd hyn erioed ei wirio.



Ffotograff 1: Yn dangos maint y llifogydd yn y Parc Gwledig Rhagfyr 2012

## 3.2 Digwyddiad Llifogydd

Yn ystod cyfnod gwlyb tu hwnt rhwng mis Hydref 2019 a mis Hydref 2020, tarodd Storm Dennis Sir Fynwy ar 15 a 16 Chwefror gan achosi llifogydd helaeth ar draws y Sir. Effeithiodd llifogydd ar rai anheddu ym mhen gogleddol Castle Lee y credir eu bod yr un adeiladau lle bu llifogydd yn y digwyddiad diweddarach y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn. Ar ddydd Gwener 28 Chwefror cyhoeddwyd Rhybudd Melyn gan Swyddfa'r Met ar gyfer glaw trwm ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru gyda rhybudd Oren ar gyfer rhannau o Dde Cymru ac ymyl orllewinol Sir Fynwy.

Dynodwyd Storm Jorge a chyrhaeddodd hyn ar 28 Chwefror gan ychwanegu cyfnod pellach o lawiad trwm ar draws Sir Fynwy. O fedryddion glaw lleol<sup>1</sup> dechreuodd y glaw tua 6.00am ddydd Gwener 28 Chwefror a dod i ben tua 6.00am ddydd Sadwrn 9 Chwefror gyda thua 62mm wedi syrthio yn y cyfnod 24 awr. Cofnododd medrydd glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn Collister ger Gwndy 41mm o lawiad yn ystod yr un cyfnod. Dechreuodd y dŵr ffo wyneb a'r nentydd sy'n tarddu yn ardal Coed Gwent ryddhau a chodi lefelau dŵr yn Nant Nedern, y brif lwybr dŵr ar gyfer yr ardal sy'n mynd drwy Gil-y-coed i arllwys i'r Afon Hafren. Mae gan rannau o'r dalgylch hefyd gydran dŵr daear uchel gan eu bod yn cysylltu gyda'r haenau o galchfaen islaw drwy lyncyllau, mae faint y cyfrannodd dŵr daear at y digwyddiad llifogydd yma yn ansicr. Mewn cyfnodau sych gall llif ostwng lawr i'r galchfaen ond mewn cyfnodau gwlyb iawn gall wagu i'r wyneb ac ychwanegu at lefelau llifogydd. Ddydd Gwener 28 Chwefror dosbarthwyd llwythi o fagiau tywod i Depot Cyngor Sir Fynwy yng Nghil-y-coed i baratoi ar gyfer alwadau am gymorth.

Er i'r glawiad ddod i ben yn gynnar ddydd Sadwrn 29 Chwefror fe wnaeth y llif barhau a daliodd lefelau dŵr Nant Nedern i godi. Ddydd Sadwrn 29 Chwefror dechreuodd Swyddog Dyletswydd allan o oriau Cyngor Sir Fynwy i dderbyn ceisiadau am fagiau tywod drwy gydol diwedd y bore, i ddechrau ar gyfer Castle Lodge Crescent ac yna Castle Lea. Ar

<sup>1</sup> Daeth y data a ddefnyddiwyd o fedryddion glaw agosaf Cyngor Sir Fynwy yn Penhow a Devauden

y cam hwn roedd y llifogydd yn Castle Lodge Crescent yn dod o Nant Nedern. Mae adroddiadau preswylwyr yn sôn am broblemau llifogydd o 9.30am ymlaen. Roedd llifogydd yn Castle Lea yn dod o dwll gwaith oedd yn gorlifo dŵr wyneb a soniodd preswylwyr am broblemau llifogydd o ddiwed y prynhawn ymlaen. Parhaodd galwadau i Gyngor Sir Fynwy am gymorth i'r prynhawn a gyda'r nos ar y dydd Sadwrn ac fe wnaeth y lefelau dŵr barhau i godi. Yn Castle Lea roedd y llifogydd i ddechrau ar ffyrdd y stad ond yna yn ymledu i adeiladau allanol ac yna erbyn yn hwyr gyda'r nos, i mewn i anheddu. Er presenoldeb Swyddogion Cyngor Sir Fynwy yn dosbarthu bagiau tywod a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae sylwadau am ddosbarthu bagiau tywod yn dweud nad oedd yn bosibl atal y lifodd parhaus o dwll gwaith dŵr wyneb ger cyffordd Jolyons Court a Castle Lea.



Ffotograff 2: Yn dangos y twll gwaith yn gorlifo dŵr wyneb yn Castle Lea, a dynnyd ar 1 Mawrth 2020


Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar y safle yn Castle Lea, yn ogystal â chyngorydd sir lleol tan yn hwyr i'r nos Sadwrn ond dywed adroddiadau nad oedd fawr y gallai'r rhai oedd yn bresennol ei wneud wrth i'r gorlifo o'r systemau dŵr wyneb barhau. Digwyddodd hyn gan na allent arllwys i Nant Nedern oherwydd ei lefelau llifogydd.



Ffotograff 3: Yn dangos maint llifogydd yn Castle Lea a Jolyons Court, a dynnyd ar 1 Mawrth 2020.



Llun 4: Yn dangos maint y llifogydd yn Castle Lea, a dynnwyd ar 1 Mawrth 2020




Ffigur 9: Amcan o faint y llifogydd, seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Parhaodd y galw am fagiau tywod drwy gydol nos Sadwrn ac i fewn i fore Sul 1 Mawrth gyda dosbarthu a chymorth ar gael o Depot Cyngor Sir Fynwy yng Nghil-y-coed. Cafodd mwy o fagiau tywod eu dosbarthu i Depot Cil-y-coed tua 5.00am ddydd Sul 1 Mawrth i ddiwallu anghenion lleol.

Roedd lefelau dŵr yn parhau'n uchel ddydd Sul 1 Mawrth a roedd rhannau o'r Parc Gwledig ac ardaloedd o amgylch y Castell dan ddŵr, dros fetr o ddynader mewn rhannau. Roedd swyddogion a chyngorwyr o Gyngor Sir Fynwy ar y safle i gynorthwyo preswylwyr, ynghyd â chyrff eraill yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac yn ddiweddarach Highways England. Roedd Dŵr Cymru yn cymryd rhan ond ni fuont yn bresennol ar y safle.

Siaradodd Cyngor Sir Fynwy gyda phreswylwyr a gafodd llifogydd yn eu catrefi gan roi cyngor a chefnogaeth lle'n bosibl a chymryd manylion o faint, dyfnader y llifogydd ac yn y blaen. Galloedd Swyddogion Cyngor Sir Fynwy ganfod bod llifogydd mewnol mewn pedair annedd yn Castle Lea ac un yn Castle Lodge Crescent gyda nifer o anheddua eraill â gerddi ac adeiladau allanol ac ati dan ddŵr. Sefydlwyd hefyd fod llifogydd mewnol mewn chwech adeilad masnachol ar Stad Ddiwydiannol Pont Hafren a ddaeth o Nant Nedern yn ogystal â llifogydd yn y ffyrdd mynediad. Effeithiodd y llifogydd yn ddifrifol ar un adeilad masnachol gyda difrod i beiriannau ac offer. Roedd llifogydd ar y ffyrdd hefyd wedi effeithio ar fynediad i Castle Way, rhannau o Norman Way, Lodge Way, Symondscliffe Way ac ardal yn y Pill. roedd hefyd bryderon am ddŵr llifogydd wedi cymysgu gydag olew yn y stad ddiwydiannol.



Fotograff 5 (ar y chwith) yn dangos peth o'r llifogydd yn yr ardal fasnachol ar noswaith 29 Chwefror 2020

Fotograff 6 (ar y dde) yn dangos y llifogydd yn yr ardal fasnachol ar noswaith 29 Chwefror 2020 Diolch i Adferiad Cil-y-coed

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y safle o tua 10.15am ddydd Sul 1 Mawrth a dynodi bod y sgrin frigau wrth y fynediad i'r cwl fert dan Draffordd yr M4 yn llawn malurion. Fe wnaethant ffonio Highways England tua 10.45am i ofyn iddynt drin y sgrin frigau orlawn. Mae'r sgrin frigau, y cwl fert a'r drws môr yn gyfrifoldeb Highways England gan eu bod yn gysylltiedig gydag Ail Groesfan yr Hafren. Dywedodd Highways England iddynt dderbyn galwad tua 11am ac i'w Huwch Reolwr Gweithrediadau gyrraedd y safle am ganol-dydd, ac iddo nodi fod y sgrin wedi ei blocio gan ysgyrion, yn bennaf gan frwyn. Ystyriodd nad oedd y dŵr yn y ffos ddraenio yn ddim byd allan o'r cyffredin ar yr adeg honno o'r flwyddyn ond trefnodd i dîm fynychu ac yna gadawodd y safle. Ni chafwyd unrhyw gofnodion y bu'r tîm hwn ar y safle.



Ffurig 10: Ffotograff o'r awyr (2010) o'r cwl fert dan draffordd yr M4

Dychwelodd Uwch Reolwr Gweithrediadau Highways England am 4pm ac esbonio wrth nifer o gynrychiolwyr safle oedd bellach ar y safle na fedrent godi'r sgrin ar gyfer clirio oherwydd y pwysau dŵr ar y sgrin. Byddai angen iddynt aros am y llanw uchel nesaf er mwyn cydbwys o pwysedd dŵr, Serch hynny, galwodd yr Uwch Reolwr Gweithrediadau am i Weithiwr mewn Gofal/Rigiwr o Highways England ymuno ag ef a gwnaethant ymgais i glirio rhai o'r malurion gyda llaw er mwyn llacio'r pwysedd dŵr. Methodd ymgais i godi'r sgrin tua 6.30pm wrth i'r pŵer i'r modur gael ei dorri. Bu Trydanwr o Highways England yn bresennol ac adfer y pŵer ond roeddent yn dal i fethu codi'r sgrin a pharhaodd clirio â llaw tan tua 10pm. Yna daeth staff Highways England oedd ar y safle gyda rhai liffiau tynnu â llaw o'u depot a tua 1am ddydd Llun 2 Mawrth gallasant yn y diwedd godi'r sgrin a bu gostyngiad sylweddol yn y dŵr. Ar ôl clirio'r malurion o'r sgrin cafodd ei rhoi yn ôl yn ei lle. Fe wnaeth y sgrin unwaith eto ddal malurion a chodwyd y sgrin eto, y tro hwn gyda modur tua 1.30am ddydd Mawrth 2 Mawrth a chliriwyd y malurion.

O gofnodion cynnal a chadw Highways England, cariwyd gwiriad llawn ar y sgrin a'r modur ym mis Ionawr 2020 fel rhan o'u hymweliadau tri misol ac roedd y cyfan yn foddaol. Gwnaed ymweliad pellach ar 3 Chwefror ac fe wnaethant nodi fod y clirio brwyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gadael y dyfrffyrdd yn glir a bod y sgrin yn glir. Nid oes unrhyw gofnodion pellach am bresenoldeb tan ddiwrnod y llifogydd..

Dywed adroddiadau lleol fod yr ardaloedd lle bu llifogydd wedi clirio erbyn oriau bach dydd Llun 2 Mawrth, gan gadarnhau adroddiadau Highways England.

Yn ogystal â'r cyfyngiad ar y llif a achoswyd gan y blociad yn sgrin Highways England, mae adroddiadau lleol wedi awgrymu fod tyfiant gormodol a lefelau gwrthdro uwch rhwng tiroedd y Castell a chwl fert yr M4 wedi gostwng capasiti y sianel dros gyfnod ac yn cyfyngu'r llif ymhellach. Dylid ystyried cynnal asesiad manwl o gapasiti'r sianel, lefelau gwrthdro a strwythurau ar ei hyd i ddynodi unrhyw gyfyngiadau sylweddol i'r llif ar hyd y darn yma o Nant Nedern.



**Ffotograff 7: Yn dangos maint y llifogydd yn Castle Lea yn edrych o'r de o Jolyons Court a dynnyd ar 1 Mawrth 2020**



**Ffotograff 8: Yn dangos maint y llifogydd yn Castle Lea yn edrych i'r gogledd o Jolyons Court, a dynnyd ar 1 Mawrth 2020.**

Yn ddilynol bu staff Cyngor Sir Fynwy ar y safle i gynorthwyo preswylwyr a gweithredwyr masnachol i symud eiddo a ddifrodwyd ar gyfer ei daflu a rhoi cyngor ac arweiniad ar sut i symud ymlaen. Cliriodd staff Cyngor Sir Fynwy ffyrdd a draeniau a chlirio malurion a adawyd ar ôl y llifogydd. Symudodd rhai preswylwyr i lety arall nes y medrid atgyweirio eu cartrefi.



Ffotograff 9: Yn dangos maint y llifogydd yn Castle Lea yn edrych i'r gorllewin, a dynnwyd ar 1 Mawrth 2020




Ffotograff 10: Yn dangos lefelau llifogydd ddydd Sul 1 Mawrth 2020 yn yr ardal fasnachol



Ffotograff 11: Yn dangos lefelau llifogydd ddydd Sul 1 Mawrth 2020 yn yr ardal fasnachol



**Ffotograff 12:** Yn dangos y llifogydd yn Nant Nedern yn edrych i'r gogledd ger y cwl fert dan yr M4.



**Ffotograff 13:** Yn dangos lefel dŵr yn Nant Nedern yn edrych i'r gogledd ddydd Sul 1 Mawrth 2020 ger Symondscliff Way

## 3.3 Dadansoddiad Glawiad

Ar 15 a 16 Chwefror 2020 disgynnodd cyfnod o law trwm yn ystod Storm Dennis, gan achosi llifogydd helaeth ar draws y Sir. Parhaodd yn gyfnod gwlyb gan bennaf rhwng 16 a 28 Chwefror, a syrthiodd cyfnod pellach o law trwm ar 28-29 Chwefror yn ystod Storm Jorge ar dir oedd eisoes yn ddirlawn gan arwain at llifogydd sylweddol yn nhref Cil-y-coed. Yn seiliedig ar ddata medrydd glaw, dechreuodd y glawiad tua 6.00am ddydd Gwener 28 Chwefror hyd at tua 6.00am ddydd Sadwrn 29 Chwefror, gyda hyd at 62mm o lawiad yn seiliedig ar fedryddion Cyngor Sir Fynwy yn Penhow a Devauden, yr agosaf at Gil-y-coed. Cofnododd medrydd glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn Collister ger Gwnyd 41mm o lawiad yn ystod yr un cyfnod. O adroddiadau lleol, dechreuodd llifogydd yn ac o amgylch ardaloedd Castell Cil-y-coed, Castle Lea, Jolyons Court, Castle Lodge Crescent a Stad Ddiwydiannol Pont Hafren yn gynnar ar fore dydd Sadwrn 29 Chwefror a pharhau i gynyddu tan yn hwyr gyda'r nos ddydd Sul 1 Mawrth, cyn clirio'n bennaf erbyn bore cynnar dydd Llun 2 Mawrth.

### Storm Jorge

Storm Jorge oedd y bumed storm a enwyd yn nhymor 2019/2020 a digwyddodd o fewn dwy wythnos yn unig ar ôl y glawiad trwm o Storm Dennis. Enwyd Jorge gan wasanaeth meteoroleg Sbaen a daeth â gwyntoedd cryf a glaw trwm ar draws Prydain o 18 Chwefror i 1 Mawrth.


Roedd effeithiau'r tywydd o Storm Jorge yn gyffredinol llai difrifol na stormydd Ciara a Dennis ond fe wnaeth problemau llifogydd barhau yn dilyn y stormydd cynharach hyn ac fel canlyniad i fwy o law syrthio ar dir oedd eisoes yn ddirlawn. Cafodd y rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe ei chau ac roedd adroddiadau o fwy o lifogydd lleol. Cafodd yr M4 yng ngorllewin Cymru ei chau oherwydd gwyntoedd cryf. Parhaodd problemau llifogydd o'r mis Chwefror eithriadol o wlyb ar draws rhannau o Brydain.

Mae adroddiad gan Swyddfa'r Met ar Storm Jorge ar gael yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

### Data Tywydd


Mae'r siart dadansoddi am 18.00 UTC 29 Chwefror 2020 yn dangos bod canol storm Jorge i orllewin yr Alban.

Mae'r siart islaw'n dangos cyfansymiau glawiad cyfartalog yn y Deyrnas Unedig ar gyfer pob diwrnod o aeaf 2020 (Rhagfyr 2019 i Chwefror 2020 cynhwysol), gan ddangos natur barhaol wlyb y tywydd o ddechrau mis Chwefror ymlaen, gyda'r tri brig yn gysylltiedig gyda'r tair storm a enwyd.




Ffigur 11: Data Glawiad Swyddfa'r Met Rhagfyr 2019 i Chwefror 2020. Mae hyn hefyd yn dangos cyfansymiau glawiad dyddiol drwy Chwefror 2020, gyda dyddiau neilltuol o wlyb o Ciara (8fed), Dennis (15fed) a Jorge (28ain)

Mae'r delweddau radar glaw am 0230 UTC 29 Chwefror 2020 yn dangos glaw trwm o ffryntiau'n gysylltiedig gyda Jorge yn ysgubo ar draws y Deyrnas Unedig cyn y gwyntoedd cryfaf, gyda'r tywydd gwlypaf ar draws ardaloedd ucheldir gorllewinol Lloegr a Chymru a dros 50 mm yn syrthio ar draws yr ardaloedd hyn.



Ffigur 12: Delwedd radar glaw o Swyddfa'r Met

Roedd cyfanswm darpariaethol glawiad y Deyrnas Unedig ar gyfer Chwefror 2020 yn 209.1mm, 237% o gyfartaledd 1981-2010. Hwn oedd mis Chwefror gwlypaf y Deyrnas Unedig a'r mis calendr pumed wlypaf ar gofnod mewn cyfres o 1862. Hwn hefyd oedd y mis Chwefror gwlypaf yng nghyfres dyddodiad faith Lloegr a Chymru a gynhaliwyd ers 1766. Mae'r map islaw'n dangos cyfansymiau glawiad y Deyrnas Unedig ar gyfer Chwefror 2020 fel canran o gyfartalog hirdymor Chwefror 1981-2010. Derbyniodd y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig dros ddwywaith y glawiad cyfartalog misol, gyda thair gwaith y cyfartalog yn disgyn yn weddol eang ac yn lleol hyd at bedair gwaith y glawiad cyfartalog ar draws rhannau o dde ardal y Pennines.



Ffigur 13: Yn dangos cyfanswm glawiad Chwefror 2020

## 4. Dulliau Llifogydd

### 4.1 Llifogydd Afonol

Mae gan Nant Nedern uwchben Cil-y-coed ddalgylch o tua 46km<sup>2</sup> ac mae'n bennaf wledig. Mae tarddiad y prif lif yn ardal Coed Gwent i'r gogledd a'r gogledd orllewin o Gil-y-coed lle mae Nant Castrogi yn tarddu. Caiff ei hadnabod fel Nant Caerwent lle mae'n pasio o amgylch Caerwent ac yna'n ymuno gydag is-nant ddienw o'r gogledd orllewin yn dod yn Nant Nedern, gan gasglu mwy o is-nentydd bach ar ei ffordd i'r de.

Wrth iddi fynd i gyfeiriad y de, mae'n pasio drwy ochr ddwyreiniol y dref gyda phentref Porthysgewin ychydig i'w dwyraint. Mae prif ran y dref ei hun ar ochr orllewinol Nant Nedern. Mae'r nant yn parhau i'r de i aber Afon Hafren lle mae Nant Nedern yn arllwys drwy gwlfert dan draffordd yr M4. Mae sgrin frigau ar ochr uchaf y cwlfert y gellir ei chodi i glirio malurion a drws môr (fflap llanw mawr) sy'n atal llif llanw yn ôl i'r nant. Caiff Nant Nedern ei dosbarthu fel Prif Afon a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol amdani. Wrth i'r nant deithio i'r de mae hefyd yn mynd mewn i Ardal Ddraeniad Mewnol Cil-y-coed a Gwynllwg. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n awr yn gyfrifol am yr Ardal Ddraeniad ond caiff ei rheoli gyda Phwyllgor Cydlynw yn cynnwys perchnogion tir lleol, cynghorwyr a chynrychiolwyr eraill perthnasol.

Mae llwybr y nant yn rhedeg ar hyd ochr ddwyreiniol y Parc Gwledig yn agos at y Castell, sydd ar dir uwch, yna'n troi'n agos i ardal breswyl Castle Lodge Crescent, gan fynd dan nifer o bontydd bach. Mae wedyn yn teithio drwy gwlfert dan y B4245 drwy Stad Ddiwydiannol Pont Hafren gyda phont lle mae'n pasio dan Symondscliffe Way i'r Pill lle mae'n mynd mewn cwlfert dan reilffordd Llundain i Dde Cymru ac oddi yno i'r cwlfert dan draffordd yr M4. Mewn llifogydd mae'r nant yn gorlifo dros ei glannau o ogledd y Castell ac o amgylch yr adran drwy ardaloedd tir isel y parc gwledig, yn cynnwys ardal y cae chwarae ger Castle Lee. Mae dŵr wyneb o'r dref ac ardaloedd preswyl yn arllwys i nant Nedern mewn nifer o leoliadau, gyda'r brif garthffos dŵr wyneb yn gollwng i Nant Nedern tua 110 metr i'r gogledd o Castle Lodge Crescent yn OSGR 348671/18860, gan ychwanegu at lif y dalgylch a chynyddu effaith llifogydd y nant. Gan fod arllwysfa'r nant i'r Afon Hafren, aber llanw yma, gall lefelau llanw effeithio ar yr arllwysiad. Mae'r drws môr, fflap llanw mawr, yn atal llif ar yn ôl rhag dod lan y nant ac mewn lefelau llanw sylweddol bydd yn cyfyngu arllwysiadau i'r aber, er mai dim ond am gyfnodau byr fydd hyn. Ar yr achlysur hwn digwyddodd llanw uchel am 10.20pm ddydd Sadwrn 29 ac am 10.40am a 10.55 pm ddydd Sul 1 Mawrth. roedd lefelau llanw nifer o fetrau'n is na lefelau llifogydd yn y cwlfert i fyny'r llif ac ystyriwyd na fyddai hyn wedi cael effaith sylweddol ar lifoedd.

Cynhaliwyd astudiaeth flaenorol gan Atkins ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2012 ond roedd yn gyfyngedig. Byddai astudiaeth bellach yn werthfawr tu hwnt wrth wella dealltwriaeth o'r dalgylch, effaith gwahanol strwythurau ar hyd ei llwybr, y rhyngweithio gyda llif llanw yn Aber Hafren, y cysylltiadau dŵr wyneb ac unrhyw botensial ar gyfer gostwng brig llif yn cynnwys unrhyw dechnegau naturiol ar gyfer rheoli llifogydd.



Ffotograff 14: Nant Nedern mewn llifogydd a dynnwyd ddydd Sadwrn 1 Mawrth 2020



Ffotograffau 15, 16, a 17: Staff Highways England wrth y Sgrin frigau ym mis Mawrth 2020 hefyd yn dangos peth o'r malurion



Ffotograff 18: Y sgrin wrth y fynedfa i'r cwlfert dan draffordd yr M4, i'r de o'r ardaloedd masnachol, a dynnwyd ddydd Sul 1 Mawrth 2020

## 4.2 Draeniad Tir

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae llawer o'r draeniad tir o fewn Ardal Draeniad Mewnol Cil-y-coed a Gwynllwg, fel y dangosir yn Ffigur 4 uchod. Ymhellach i'r gogledd ar Nant Nedern mae Ardal Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Caerwent a ddangosir yn Ffigur 3 uchod.

Mae'r SSSI yma yn ardal sylweddol i'r gogledd ddwyrain o Gil-y-coed a adnabyddir fel SSSI Caerwent sydd ar Nant Nedern a hefyd yn ymestyn i'r gogledd a'r de o'r A48 a gaiff ei chludo ar draphont dros yr SSSI. Mae hon yn ardal o ddolydd dŵr a chaiff lefelau dŵr yma eu rheoli i gynnal ecoleg y safle. Mae nifer o lyncdyllau yn y galchfaen oddi tano, a elwir yn lleol yn 'drobyllau' lle yn llifoedd diwedd yr haf gall llif y nant ollwng i lawr i'r agennau a gall gysylltu gyda llif y ffynnon fawr a gaiff ei phwmpio allan yn Sudbrook i gadw Twnnel Rheilffordd yr Hafren yn sych. Mewn llifogydd gall yr SSSI weithredu fel cronfa fechan, fod bynnag oherwydd y cyfnod gwlyb iawn yn yr wythnosau cyn y digwyddiad llifogydd, ychydig iawn o storio fyddai wedi bod ar gael. Gall y lyncdyllau hefyd ryddhau llif ar ôl glawiad sylweddol gan ychwanegu at lif dŵr daear sy'n ffurfio llawer o lifoedd arferol Nant Nedern. .


Y perchnogion tir sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ffosydd a chyrsiau dŵr eraill a'u cadwn rhydd o falurion.

Atodir copi o astudiaeth yr SSSI gan Gymdeithas Ddaearegol Prydain yn Atodiad C.

## 4.3 Draeniad Dŵr Wyneb

Mae'r systemau draeniad dŵr wyneb yng Nghil-y-coed yn gymysgedd, yn bennaf yn gyfrifoldeb Dŵr Cymru ond gyda rhai systemau draeniad priffyrrd Cyngor Sir Fynwy sy'n cysylltu gyda system Dŵr Cymru. Mae hefyd rai systemau draeniad preifat yn Castle Lea sydd hefyd yn cysylltu gyda systemau Dŵr Cymru. Yn y pen draw mae'r holl systemau'n arllwys i Nant Nedern gyda'r brif olynyngfa i'r nant tua 110 metr i'r gogledd o Castle Lodge Crescent yn OSGR 34876/18836. Mae gan y rhan fwyaf o'r gollyngfeydd fflapiau llanw i atal llif yn ôl o'r Nant. Fodd bynnag unwaith na all y systemau arllwys maent yn cael eu cloi gan y llanw a bydd y systemau yn cronni ac yn gorlenwi. Rhoddyd twll gwaith yn rhan Cae Chwarae y Parc Gwledig gyda grid yn arbennig i ganiatáu gorlenwi ymhellach yn ôl. Yn ystod y digwyddiad hwn gwyddom fod llawer o'r Parc Gwledig dan ddŵr felly byddai arllwysiad o'r systemau dŵr wyneb i Nant Nedern wedi atal. Roedd y twll gwaith a ddynodwyd yn y cae chwarae ei hunan dan ddŵr felly byddai gorlenwi ymhellach yn ôl yn y system sy'n cyfrif am y gorlenwi o'r twll gwaith wrth gyffordd Jolyons Court a Castle Lea. Mae'n bwysig gwirio pob fflap llanw i sicrhau eu bod yn gweithio fel y maent i fod. Gall fod potensial am osod mwy o fflapiau llanw mewn rhannau o'r system ond byddai angen astudiaethau i sicrhau nad oedd hyn yn achosi problemau mewn man arall.

Mae trefniadau tebyg ar Stad Ddiwydiannol Pont Hafren gyda systemau dŵr wyneb yn arllwys i Nant Nedern. Yn seiliedig ar adroddiadau gan berchnogion ac ymweliadau gan swyddogion Cyngor Sir Fynwy fe weithiodd y systemau yn dda yn ystod y glawiad trwm heb achosi unrhyw lifogydd uniongyrchol a dechreuodd llifogydd mewn rhannau o'r stad dros nos 29 Chwefror i 1 Mawrth o Nant Nedern.



Ffigur 14: Cil-y-coed – System draeniad dŵr wyneb Dŵr Cymru yn Castle Lea

# 5 Hawliau a Chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg

## 5.1 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sefydlwyd Cyngor Sir Fynwy fel yr Awdurdod Llifogydd Dŵr Arweiniol (yr ‘Awdurdod Arweiniol’) ar gyfer ei ardal weinyddol.

Yn ôl y diffiniad yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae Cyngor Sir Fynwy yn gyfrifol am ‘reoli’ yr hyn a elwir yn ‘risg llifogydd lleol’. Mae hyn yn cynnwys risg llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr ffo wyneb a dŵr daear.

Mae awdurdodau lleol bob amser wedi bod â chyfrifoldebau neilltuol am gyrsiau dŵr cyffredin ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi arwain wrth ddelio gyda digwyddiadau llifogydd dŵr wyneb cyn y newidiadau a gynhwyswyd o fewn Deddf Rheoli Dŵr a Llifogydd 2010.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dodi nifer o ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol yn eu rôl newydd fel Awdurdodau Arweiniol yn cynnwys:

- Paratoi strategaethau lleol ar gyfer rheoli risg llifogydd;
- Dyletswydd i gydymffurfio gyda'r strategaeth genedlaethol;
- Cydweithredu gydag awdurdodau eraill, yn cynnwys rhannu data;
- Dyletswydd i ymchwilio'r holl llifogydd o fewn ei ardal, i'r graddau y mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ystyried fod hynny yn angenrheidiol neu'n briodol;
- Dyletswydd i gadw cofrestr o strwythurau a nodweddion sy'n debygol o effeithio ar risg llifogydd;
- Dyletswydd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy; a
- Phwerau caniatâd ar gyrsiau dŵr cyffredin.

Yn ychwanegol at hyn mae gan bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol nifer o'r hyn a elwir yn bwerau caniataol. Mae'r rhain yn bwerau sy'n eu caniatâu i wneud pethau, ond nad ydynt yn eu gorfodi i wneud hynny a maent yn cynnwys:

- Pwerau i ofyn am wybodaeth;
- Pwerau i ddynodi strwythurau neu nodweddion neilltuol sy'n effeithio ar risg llifogydd neu erydiad arfordirol;
- Ehangu pwerau i wneud gwaith i gynnwys camau rheoli risg yn ehangach; a
- Y gallu i achosi llifogydd neu erydiad arfordirol mewn rhai amodau.

O 7 Ionawr 2019 mae'r Awdurdodau Arweiniol yng Nghymru hefyd wedi cymryd rôl Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo Systemau Draeniad Cynaliadwy. Yn y rôl yma maent yn gyfrifol am gymeradwyo dyluniad gwreiddiol y Systemau Draeniad Cynaliadwy a mabwysiadu a chynnal a chadw y system orfenedig yn unol â Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Draeniad Cynaliadwy.

Roedd swyddogaethau'r Awdurdod Arweiniol yn ystod ac ar ôl y llifogydd yng Nghil-y-coed yn

- Ymchwiliodd swyddogion y llifogydd dechreuol ac ysgrifennu at bob annedd a busnes yn agos at Nant Nedern yn gofyn am wybodaeth am y digwyddiad llifogydd. Mae ymatebion a gwylbodaeth berthnasol wedi helpu i roi gwylbodaeth ar gyfer yr ymchwiliad a'r adroddiad hwn a gynhyrchwyd yn unol â gofynion Adran 19 y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.
- Cysylltodd swyddogion gyda phreswylwyr yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt i gynnig cymorth a chyngor i gynorthwyo'r adferiad yn dilyn y digwyddiad.
- Cydlynodd swyddogion yr ymateb i'r llifogydd gyda'r Gwasanaethau Argyfwng
- Cafodd yr wybodaeth am asedau a gasglwyd yn ystod y llifogydd ei gynnwys yng Nghofrestr Asedau yr Awdurdod Arweiniol

## 5.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli risg llifogydd o'r prif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Cânt hefyd eu cydnabod fel yr awdurdod rheoli risg arfordirol dan Ddeddf Gwarchodaeth Arfordirol 1949.

Mae eu rôl trosolwg strategol ynglŷn â chael dealltwriaeth Cymru-gyfan o bob ffynhonnell llifogydd, erydiad arfordirol a'r risgiau'n gysylltiedig gyda hynny, ar sail gyson ar draws Cymru i helpu llywio'r RMA a'r cyhoedd.

Lle maent ar gael mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli Ardaloedd Draeniad Mewnol ac yn gyfrifol am gynnal a chadw, gwella a gweithredu systemau draeniad a rheoleiddio cyrsiau dŵr o fewn yr ardal draeniad mewnol. Eu prif rôl yw rheolaeth agos ar lefelau dŵr mewn cyrsiau dŵr neu dan ddaear (dŵr daear) er mwyn gostwng y risg o lifogydd ac ar gyfer cynnal pob defnydd tir a'r amgylchedd. Mae cynllun o'r Ardal Ddraeniad Manwl ar gael yn Ffigur 4 uchod.

Gan y caiff Nant Nedern ei dosbarthu fel prif afon ac yn dod o fewn yr Ardal Draeniad Mewnol, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Awdurdod Rheoli Risg sy'n gyfrifol am reoli risg llifogydd o'r cwrs dŵr hwn.

## 5.3 Cwmni Dŵr/Carthffosiaeth

Mae ymgymmerwyr carthffosiaeth yn gyfrifol am gynnal y system carthffosiaeth gyhoeddus, yn cynnwys carthffosydd a fabwysiadwyd sy'n cario dŵr ffo wyneb.

Mewn llifogydd, yn aml gall y systemau carthffosiaeth gael eu gorlwytho gyda chymysgedd o ddŵr llifogydd a charthffosiaeth yn arwain at orlifo a llifogydd. Lle'n berthnasol, mae ymgymmerwyr carthffosiaeth yn gyfrifol am symud dŵr wyneb o wynebu anhydraidd drwy eu system carthffosiaeth. Lle mae llifogydd carthffosiaeth cyson a difrifol, mae'n ofynnol i ymgymmerwyr carthffosiaeth drin hyn drwy eu cynlluniau buddsoddiad cyfalaf a gaiff eu rheoleiddio gan Ofwat. I atal mwy o lifogydd, mae'n gyfrifoldeb ar gwmniau dŵr a charthffosiaeth i fonitro'r lefelau, atal systemau carthffosiaeth rhag gorlwytho, gan gynnal a chadw ac atgyweirio pibelli draeniad fel sydd angen. Mae'r ymchwiliad wedi dynodi asedau a seilwaith yn eiddo i Dŵr Cymru a gyfrannodd at y digwyddiad llifogydd drwy orlenwi tyllau gwaith yn Castle Lea, o bosibl yn Castle Lodge Crescent ac ar Stad Ddiwydiannol Pont Hafren. Dangosir cynllun o'r asedau hyn yn Ffigur 14 uchod.

## 5.4 Network Rail

Mae gan Network Rail gyfrifoldeb fel perchennog glannau afon ac mae'n ofynnol iddo gynnal a chadw yn rheolaidd yr holl asedau sy'n achosi risg i lifogydd. Mae Nant Nedern yn mynd o dan y brif rheilffordd rhwng Llundain a De Cymru drwy gwlfert yn y Pill. Nid oes unrhyw dystiolaeth nac adroddiadau am unrhyw broblemau yn y strwythur hwn yn ystod y digwyddiad llifogydd y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn.

## 5.5 Awdurdodau Priffyrd

Mae'r Awdurdod Priffyrd yn gyfrifol am sicrhau fod y briffordd yn glir o rwystrau a bod system ddraeniad sy'n rheoli'r dŵr wyneb sy'n syrthio ar y briffordd.

Cyngor Sir Fynwy yw Awdurdod Priffordd pob priffordd y Sir Fynwy ar wahân i gefnffyrdd a thraffyrdd a gaiff eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. Mae Ail Groesiad Hafren (a elwir bellach yn Bont Twysog Cymru) yn awr yn gyfrifoldeb Highways England. Mae hyd a lled cyfrifoldeb Highways England yn cynnwys cwl fert Nant Nedern, ynghyd â'r sgrin i fyny'r llif a'r drws môr i lawr y llif. Mae'r Awdurdodau Priffyrd hefyd yn Awdurdodau Rheoli Risg ynddynt eu hunain yn ôl Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio gyda holl gyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg.

Dan Ddeddf Priffyrd 1980, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Priffyrd i gynnal a chadw y briffordd. Mae hyn yn sicrhau fod systemau draeniad dŵr wyneb priffyrd yn glir ac yn rhydd o rwystrau, yn cynnwys unrhyw gyrsiau dŵr a strwythurau sy'n mynd dan y briffordd. Nid oes unrhyw dystiolaeth nac adroddiadau am unrhyw broblemau yn unrhyw un o strwythurau Cyngor Sir Fynwy yn ystod y digwyddiad llifogydd y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio ato.

## 5.6 Perchnogion Glannau Afonydd

Mae perchnogion glannau afonydd, deiliaid cartrefi a pherchnogion busnes yn gyfrifol am gynnal a chadw asedau draeniad preifat ac fel arfer mae'r rhain yn fân ddraeniau, ffosydd, cyrsiau dŵr, pibelli, cwl fertau a phontydd.

Mae perchnogion glannau afonydd yn gyfrifol dan gyfraith gyffredin am gynnal a chadw y tir yn gyffredinol hyd at linell ganol unrhyw gwrs dŵr yn ffinio ar eu heiddo. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw y gwely, glannau ac unrhyw nodweddiol terfyn e.e. lleiniau gyda thyfiant tebyg i wrychoedd, gyda chlirio arferol ar falurion a/neu rwystrau.

